

**POLISI AR ABSENOLDEB MAMOLAETH,
MABWYSIADU, TADOLAETH/PARTNER
AC ABSENOLDEB RHIAANT I FYFYRWYR
YMCHWIL**

Fersiwn	4.0
Dyddiad a gymeradwywyd gan y Senedd / ASQC	Cymeradwywyd gyntaf: 19.06.2019 (Y Senedd) Fersiwn gyfredol: 23.05.2024 (newidiadau sylweddol) (ASQC)
Dyddiad Dod I Rym	01.08.2024
Perchennog Y Ddogfen	Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR)
Cysylltu	pgr@caerdydd.ac.uk
Rheoleiddio Rhiant	Rheoliadau Astudio ac Ymgysylltu Myfyrwyr
Dogfennau Cysylltiedig	Polisi ac arweiniad ar gymorth i fyfyrwyr beichiog a myfyrwyr sy'n dod yn rhieni. Polisi Gohirio Astudiaethau (Myfyrwyr Ymchwil)

1. Datganiadau Cyffredinol.....	1
2. Cymryd Absenoldeb o'ch Astudiaethau	1
3. Absenoldeb Mamolaeth	2
4. Absenoldeb Mabwysiadu	2
5. Diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad	3
6. Absenoldeb Tadolaeth/Partner	3
7. Absenoldeb Rhiant.....	4
8. Diwrnodau cadw mewn cysylltiad yn ystod absenoldeb rhiant a rennir (SPLIT) .	4
9. Cymryd Absenoldeb oherwydd Amgylchiadau Esgusodol	4
10. Talu ac Ad-dalu Cyflogau'r Myfyrwyr	5
11. Fisâu Llwybr Myfyrwyr (Haen 4 yn flaenorol).....	5
Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côt Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.....	7

POLISI AR ABSENOLDEB MAMOLAETH, MABWYSIADU, TADOLAETH/PARTNER AC ABSENOLDEB RHIANT I FYFYRWYR YMCHWIL

1. Datganiadau Cyffredinol

- 1.1 Nod y polisi hwn yw sicrhau bod myfyrwyr ymchwil sy'n dod yn rhieni yn cael eu trin mewn modd teg a chyson, ac nad ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol na myfyrwyr eraill o ganlyniad i'w cyfrifoldebau fel rhieni.
- 1.2 Gall myfyrwyr ymchwil cymwys gymryd absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth/partner neu absenoldeb rhiant o'u hastudiaethau, fel y bo'n briodol, mewn perthynas â genedigaeth neu leoliad plentyn.
- 1.3 Caiff y polisi hwn ei lywio gan y warchodaeth gyfreithiol a roddir i fyfyrwyr o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac fe'i llywir gan bolisiau ac arweiniad Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyflogeion ac ymchwil ac arloesi yn y DU (UKRI; Cynghorau Ymchwil y DU gynt) mewn perthynas â'r myfyrwyr ymchwil hynny y maent yn eu hariannu.
- 1.4 Dylai myfyrwyr hefyd gyfeirio at bolisi a chanllawiau'r Brifysgol ar Gymorth i Fyfyrwyr Beichiog a Myfyrwyr sy'n dod yn rhieni, a'r Polisi Gohirio Astudiaethau (Myfyrwyr Ymchwil).

2. Cymryd Absenoldeb o'ch Astudiaethau

- 2.1 Fel myfyriwr ymchwil, mae disgwyl i chi gymryd seibiant a gwyliau, ac mae'r Brifysgol yn diffinio nifer y diwrnodau gwyliau blynyddol y dylech ddisgwyl eu cael os ydych yn astudio'n llawn amser. Os ydych yn dod yn rhiant, mae gennych hawl i gymryd diwrnodau gwyliau ychwanegol (i fynd i apwyntiadau cyn geni, er enghraifft), fel y diffinnir yn y polisi hwn. Dylech roi gwybod i'ch goruchwyliwr am y wyliau ychwanegol rydych yn eu cymryd. Ni fydd cymryd diwrnodau gwyliau ychwanegol at y diben hwn yn newid hyd eich rhaglen, eich terfyn amser ar gyfer cwblhau nac unrhyw drefniadau ariannu.
- 2.2 Os ydych yn astudio ar sail ran-amser, mae'r Brifysgol yn cydnabod y byddwch yn rheoli eich astudiaethau mewn un o amrywiaeth o batrymau ymgysylltu i gyd-fynd â gwaith ac ymrwymadau eraill. Yn dibynnu ar eich patrwm ymgysylltu cytunedig, efallai na fydd disgwyl i chi drafod cymryd cyfnodau byr o'ch astudiaethau gyda'ch goruchwylwyr. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu cymryd unrhyw gyfnod o absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth/partner neu absenoldeb rhiant, mae'r polisi hwn yn berthnasol.
- 2.3 Os ydych chi'n bwriadu atal eich astudiaethau ymchwil am gyfnod o fwy na 4 wythnos (28 diwrnod), i gymryd absenoldeb mamolaeth, er enghraifft, bydd angen i chi wneud cais i Ohirio Astudiaethau, yn unol â'r Polisi Gohirio Astudiaethau (Myfyrwyr Ymchwil). Bydd dyddiadau eich rhaglen yn cael eu

haddasu a bydd eich terfyn amser ar gyfer cwblhau yn cael ei ymestyn am gyfnod cymesur.

- 2.4 Os byddwch yn cymryd absenoldeb o'ch astudiaethau am gyfnod o 28 diwrnod neu lai, nid yw'r Brifysgol yn diffinio hyn fel Gohirio Astudiaethau, ond fel absenoldeb a reolir gan eich Ysgol. Bydd y Brifysgol yn caniatáu i chi gymryd y cyfnod o absenoldeb, fel y'i diffinnir yn y polisi hwn, heblaw am Absenoldeb Tadolaeth/Partner (gweler 5.3), ni fydd hyn yn newid hyd eich rhaglen na'ch terfyn amser ar gyfer cwblhau, gan fod disgwyl i fyfyrwr ymchwil wneud yn iawn am gyfnod(au) byr o amser a dreulir i ffwrdd o'u hymchwil yn ystod cwrs cyffredinol eu rhaglen.

3. Absenoldeb Mamolaeth

- 3.1 Diffinnir absenoldeb mamolaeth fel cyfnod o hyd at 52 wythnos o absenoldeb y gellir ei gymryd mewn perthynas â genedigaeth plentyn.
- 3.2 Yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth y DU, y cynharaf y gallwch ddechrau eich cyfnod o absenoldeb mamolaeth yw 11 wythnos cyn wythnos geni ddisgwyliedig plentyn. Bydd absenoldeb mamolaeth hefyd yn dechrau'n awtomatig y diwrnod ar ôl yr enedigaeth os yw eich babi dod yn gynnar, neu os bydd angen i chi roi'r gorau i'ch astudiaethau gradd ymchwil oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â'r beichiogrwydd yn y 4 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch babi gael ei eni. Y dyddiad olaf y gallwch ddechrau eich cyfnod o absenoldeb mamolaeth yw union ddyddiad geni eich babi.
- 3.3 Mae'n bosibl y byddwch yn cymryd hyd at gyfanswm o 52 wythnos fel Gohirio Astudio ar gyfer absenoldeb mamolaeth. Nid yw'n ofynnol ichi gymryd y 52 wythnos lawn o gyfnod mamolaeth a gallwch ddewis cyfnod byrrach. Yn unol â deddfwriaeth i gyflogeion, fodd bynnag dylech gymryd o leiaf dwy wythnos o absenoldeb yn dilyn genedigaeth plentyn.
- 3.4 Os ydych yn fyfyrwr a ariennir, dylech wirio telerau ac amodau eich ysgoloriaeth, a'r cyfnod gohirio a ganiateir gan eich noddwr, cyn penderfynu ar ba gyfnod gohirio i wneud cais amdano.
- 3.5 Hefyd, caniateir i chi gymryd diwrnodau absenoldeb ychwanegol yn awtomatig i fynychu apwyntiadau mabwysiadu, a gwiriadau iechyd a datblygiad eich plentyn os nad ydych ar absenoldeb mabwysiadu ar yr adeg honno.
- 3.6 Os ydych chi'n fam benthyg, mae'r diffiniad o absenoldeb mamolaeth a'i hawliau yr un mor berthnasol.

4. Absenoldeb Mabwysiadu

- 4.1 Mae absenoldeb mabwysiadu yn gyfnod o hyd at 52 wythnos o absenoldeb y gellir ei gymryd yn dilyn lleoli plentyn gyda rhiant mabwysiadol. Dim ond un o'r rhieni mabwysiadol, y cyfeirir ato fel arfer fel y prif fabwysiadwr, a gaiff

gymryd absenoldeb mabwysiadu. (Gweler yr adran isod ar absenoldeb rhiant.)

- 4.2 Gall absenoldeb mabwysiadu ddechrau hyd at 14 o ddiwrnodau cyn i'r plentyn ddechrau byw gyda chi. Y dyddiad olaf y gallwch ddechrau eich cyfnod o absenoldeb mabwysiadu yw dyddiad lleoli'r plentyn, neu ddyddiad geni'r babi mewn achos trefniant geni plentyn ar ran rhywun arall.
- 4.3 Gallwch gymryd hyd at gyfanswm o 52 wythnos o Ohirio Astudiaethau ar gyfer absenoldeb mabwysiadu.
- 4.4 Os ydych yn fyfyrwr a ariennir, dylech wirio telerau ac amodau eich ysgoloriaeth, a'r cyfnod gohirio a ganiateir gan eich noddwr, cyn penderfynu ar ba gyfnod gohirio i wneud cais amdano.
- 4.5 Hefyd, caniateir i chi gymryd diwrnodau absenoldeb ychwanegol yn awtomatig i fynychu apwyntiadau mabwysiadu, a gwiriadau iechyd a datblygiad eich plentyn, pan fo'n berthnasol, os nad ydych ar absenoldeb mabwysiadu ar yr adeg honno.

5. Diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad

- 5.1 Efallai yr hoffech chi gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'ch ymchwil neu'ch hyfforddiant doethurol tra'ch bod ar Absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu, fel cymryd rhan mewn cynhadledd neu weithdy, neu gwrdd â'ch goruchwyliwr neu aelodau o'ch labordy ymchwil. Dylid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda'ch goruchwyliwr/goruchwylwyr ac ni ddylai fod yn fwy na 10 diwrnod ar draws cyfanswm y cyfnod gwyliau.
- 5.2 Os ydych chi'n cael eich ariannu gan Gyngor Ymchwil, byddwch chi'n derbyn taliad cyflog am y dyddiau hyn ar y gyfradd ddyddiol sylfaenol, llai swm y tâl mamolaeth / mabwysiadu rydych chi'n ei dderbyn.

6. Absenoldeb Tadolaeth/Partner

- 6.1 Diffinnir absenoldeb tadolaeth/partner fel cyfnod o absenoldeb y gall partner y person sy'n rhoi genedigaeth, partner y prif fabwysiadwr neu riant arfaethedig ei gymryd (i'r rhai sy'n cael babi drwy gytundeb benthyc croth). Mae absenoldeb tadolaeth/partner ar gael i bartneriaid o'r naill ryw sy'n byw gyda'r fam neu'r prif fabwysiadwr, ac sydd â neu'n disgwyl bod â chyfrifoldeb am fagu'r plentyn.
- 6.2 Yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth y DU a thelerau ysgoloriaethau'r Cyngor Ymchwil (sy'n hepgor unrhyw gyfnod cymwys), mae gennych hawl i gymryd hyd at 2 wythnos ar gyfer absenoldeb tadolaeth/partner. Ni ellir cymryd hyn cyn genedigaeth neu leoliad y plentyn, a rhaid iddo ddod i ben cyn pen 56 diwrnod ar ôl yr enedigaeth/lleoliad. Rhaid ei gymryd mewn un tro.
- 6.3 Dylech chi roi gwybod i'ch Ysgol cyn eich absenoldeb tadolaeth/partner. Gan fod Gohirio Astudiaethau dim ond yn gymwys pan fydd angen i fyfyrwr atal yr ymgysylltiad â'i raglen am fwy na 28 diwrnod, nid yw absenoldeb

tadolaeth/partner yn sail gymwys ar gyfer gwneud cais i Ohirio Astudiaethau. Fodd bynnag, bydd eich terfyn amser i'w gwblhau yn cael ei ymestyn gan gyfnod cymesur.

- 6.4 Mae'r Brifysgol yn cydnabod ei bod yn bosibl y byddwch am fynd gyda'ch partner i apwyntiadau cyn y geni neu fabwysiadu. Caniateir yn awtomatig i chi gymryd diwrnodau absenoldeb ychwanegol at y dibenion hynny.

7. Absenoldeb Rhiant

- 7.1 Gall rhiant nad yw'n fam neu'n brif fabwysiadwr y plentyn ohirio astudiaethau hyd at gyfanswm o 50 wythnos ar gyfer absenoldeb rhiant. Gellir cymryd hwn mewn 1 bloc neu fwy ond efallai na fydd yn gorffen yn hwyrach na phen-blwydd cyntaf y plentyn.

- 7.2 Os ydych chi am gymryd llai na 4 wythnos (28 diwrnod), ni fydd hyn yn cyfrif fel cyfnod Gohirio Astudiaethau ond bydd yn cael ei ganiatáu fel Cyfnod Absenoldeb.

- 7.3 Gellir rhannu absenoldeb rhiant â mam/prif fabwysiadwr y plentyn ('absenoldeb rhiant a rennir'), fel bod yr absenoldeb yn cael ei gymryd pan fydd y rhiant arall wedi dychwelyd i'r gwaith/astudio a'ch bod yn gofalu am y plentyn fel ei brif ofalwr am y cyfnod hwnnw, neu gellir ei gymryd ar yr un pryd ag absenoldeb y rhiant arall.

- 7.4 Fel yn achos absenoldeb tadolaeth/partner, fe ganiateir i chi'n awtomatig gymryd diwrnodau gwyliau ychwanegol i fynd i apwyntiadau cyn geni neu fabwysiadu.

8. Diwrnodau cadw mewn cysylltiad yn ystod absenoldeb rhiant a rennir (SPLIT)

- 8.1 Os ydych chi'n rhannu eich absenoldeb rhiant gyda mam neu brif fabwysiadwr y plentyn ('absenoldeb rhiant a rennir'), efallai yr hoffech chi gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil neu hyfforddiant. Dylid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda'ch goruchwyliwr / goruchwylwyr ac ni ddylai fod yn fwy na 20 diwrnod o gyfanswm y cyfnod gwyliau.

9. Cymryd Absenoldeb oherwydd Amgylchiadau Esgusodol

- 9.1 Pennir y cyfnodau absenoldeb a ganiateir a'r Gohirio Astudiaethau gan y polisi hwn er mwyn sicrhau bod myfyrwyr ymchwil sy'n dod yn rhieni yn cael eu cefnogi mewn modd teg a chyson.

- 9.2 Nid yw dod yn rhiant yn cael ei ystyried yn amgylchiad esgusodol, yn yr un modd ag iechyd gwael, ac mae ceisiadau am Ohirio Astudiaethau at ddiben absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth/partner neu absenoldeb rhiant yn syml gan amlaf.

9.3 Os bydd amgylchiadau eraill yn codi, megis salwch partner neu blentyn ar ôl y geni, gallwch chi wneud cais am Ohirio Astudiaethau ar sail ychwanegol neu wahanol ac am gyfnod hwy na'r hyn a ddiffinnir yn y polisi hwn. Dylai'r cais gael ei wneud ar sail dosturiol, bod â thystiolaeth briodol, a dilyn y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil).

10. Talu ac Ad-dalu Cyflogau'r Myfyrwyr

10.1 Bydd gan fyfyrwyr sy'n cael eu hariannu gan Gyngor Ymchwil yr hawl i gael taliadau cyflogau ar gyfer absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth/partner fel yr amlinellir yn Nhelerau ac Amodau Grantiau Hyfforddi'r Cyngor Ymchwil:

- .1 Telir y 26 wythnos gyntaf o absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu ar y gyfradd gyflog llawn; mae'r 13 wythnos ganlynol ar gyfradd ostyngol; ni thelir am y 13 wythnos olaf;
- .2 mae absenoldeb tadolaeth/partner yn caniatáu cymryd hyd at 2 wythnos o wyliau ar gyflog llawn.¹

10.2 Dylech ddychwelyd i'ch astudiaethau yn y Brifysgol yn llawn amser neu'n rhan amser, am o leiaf 3 mis ar ôl absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu. Os byddwch yn dewis peidio â dychwelyd i'ch astudiaethau ar ôl cyfnod gohirio astudiaethau, mae'r Cynghorau Ymchwil yn disgwyl i'r Brifysgol adennill oddi wrthy, ar eu rhan, werth unrhyw daliadau a wnaed i chi am absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu. Gall y gofyniad hwn gael ei hepgor o dan amgylchiadau eithriadol, a fyddai'n cael eu cymeradwyo fesul achos, gan Ddeon Ôl-raddedig y Coleg perthnasol.

10.3 Gellir cymryd hyd at 50 wythnos fel Absenoldeb Rhiant Di-dâl, gyda'r efrydiaeth yn cael ei hystyng yn unol â hynny.

10.4 Os ydych yn cael eich ariannu gan noddwr gwahanol, dylech ymgynghori â'ch cyllidwr i benderfynu a ellir gwneud taliadau yn ystod cyfnodau mabwysiadu, tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir.

11. Fisâu Llwybr Myfyrwyr (Haen 4 yn flaenorol)

11.1 Os ydych chi'n cael eich noddi gan y Brifysgol dan fisa Llwybr Myfyriwr (Haen 4 yn flaenorol), bydd Gohirio Astudiaethau o fwy na 60 diwrnod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol dynnu y nawdd yn ôl ac i chi ddychwelyd i'ch gwlad gartref drwy gydol eich absenoldeb. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i chi wneud cais i'r Brifysgol am rif CAS newydd i wneud cais am fisa newydd er mwyn ailgydio yn eich astudiaethau.

¹ Diffinnir wythnos fel yr un nifer o ddyddiau ag y byddech chi fel arfer yn eu hastudio mewn wythnos. Byddai wythnos yn 2 ddiwrnod, er enghraifft, os ydych chi'n rhan-amser ac yn astudio ar ddydd Llun a dydd Mawrth yn unig.

- 11.2 Rhaid i bob cais am absenoldeb sy'n fwy na 60 diwrnod gael ei wneud mewn da bryd i ganiatáu amser i gymeradwyo'r cais ac i sicrhau y gellir teithio adref yn dilyn yr adroddiad o'r gohiriad i'r UKVI.
- 11.3 Dylid ceisio cyngor gan Gefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y gellir parhau i gydymffurfio â'r fisa.

Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côt Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côt Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

Disgwyliadau ar gyfer Safonau	Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd
	O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono.
Arferion Craidd o ran Safonau	Arferion Craidd o ran Ansawdd
	Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn rhoi profiad academaidd o safon uchel.
	Pan mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno'r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol.
	Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol.
Arferion cyffredin o ran Aafonau	Arferion cyffredin o ran Ansawdd
	Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau.
	Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol.